# Datganiad Polisi Prifysgol Aberystwyth ar Gynaliadwyedd

Mae Prifysgol Aberystwyth yn cydnabod y cyfrifoldeb sydd ganddi i ddiogelu'r amgylchedd rhag effaith ei gweithrediadau a'i gweithgareddau ac i ddylanwadu ar ei staff, ei myfyrwyr a'r gymuned ehangach, i leihau eu heffaith arno, trwy weithgareddau, addysgu ac ymchwil. Rydym yn ymrwymo i:

1. Gynnal ein gweithgareddau mewn dulliau amgylcheddol gyfrifol er mwyn sicrhau, lle bynnag y bo modd, ein bod yn cael yr effaith lleiaf negyddol â phosib ar yr amgylchedd
2. Cydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol perthnasol, targedau'r sector, a chanllawiau eraill y mae'r Brifysgol yn ymrwymo iddynt sy'n gysylltiedig â chynaliadwyedd
3. Gosod ac adolygu'n rheolaidd amserlen o dargedau, yn cwmpasu'r prif feysydd sy'n gysylltiedig â chynaliadwyedd, ac yn arbennig yr uchelgais i fod yn Brifysgol Sero Net erbyn 2030
4. Monitro ein perfformiad amgylcheddol yn gyson a chadw i'w wella er mwyn gollwng cyn lleied â phosibl o allyriadau amgylcheddol i'r aer a'r dŵr, i sicrhau ein bod yn cynhyrchu cyn lleied â phosibl o wastraff, a bod adnoddau naturiol yn cael eu defnyddio'n effeithlon
5. Cyflwyno adroddiadau i'r uwch dîm rheoli am ein perfformiad o ran cynaliadwyedd, defnyddio ynni a chostau ynni
6. Lleihau allyriadau carbon ac allyriadau eraill sy'n deillio o deithiau staff a myfyrwyr
7. Rheoli a lleihau gwastraff yn unol â'r hierarchaeth wastraff
8. Defnyddio ein hymchwil, lle bo'n briodol, wrth ddatblygu prosiectau a chynnyrch sydd o fudd i'r amgylchedd a gwneud ein gweithgareddau ymchwil yn fwy cynaliadwy
9. Cynnwys pynciau sy'n trafod cynaliadwyedd yn y cyrsiau astudio a ddysgir, lle bo'n briodol
10. Lleihau ein defnydd o ynni trwy raglen waith wedi'i thargedu a'i chynllunio i leihau ein defnydd o ynni a chynyddu effeithlonrwydd
11. Sicrhau ein bod yn cael dyfarniad "Rhagorol" BREEAM ar gyfer adeiladau newydd ac o leiaf "Da Iawn" am adeiladau sy'n cael eu hadnewyddu'n sylweddol, neu lefel gyfatebol mewn cynlluniau ardystio eraill
12. Yng ngweithgareddau caffael a datblygu'r campws rhoi ystyriaeth yn gynnar i oblygiadau amgylcheddol a goblygiadau defnyddio ynni, ac ymgorffori gwybodaeth am y cylch bywyd yn llwyr mewn penderfyniadau pwrcasu er mwyn sicrhau'r safonau uchaf posibl
13. Cynhyrchu trydan a gwres trwy ddefnyddio'r dull mwyaf effeithlon, gan ddethol a phrofi ffynonellau adnewyddadwy lle bo modd
14. Creu mwy o amrywiaeth fiolegol ar y safleoedd mae'r Brifysgol yn eu rheoli neu'n berchen arnynt
15. Ei gwneud yn ofynnol i'n holl weithwyr a'n myfyrwyr, ein partneriaid masnachol a chontractwyr weithio gydag ystyriaeth ddyledus i'r amgylchedd, a darparu hyfforddiant a goruchwyliaeth lle bo angen
16. Darparu a datblygu rhaglen addysg a chyfarwyddyd i staff a myfyrwyr ynglŷn â materion cynaliadwyedd, yn ôl yr angen
17. Sicrhau bod y Brifysgol yn datblygu ei gwytnwch i wrthsefyll peryglon y newid hinsawdd

Mae Prifysgol Aberystwyth wedi darparu adnoddau priodol i weithredu'r polisi, a bydd yn parhau i wneud hynny. Gwneir gwelliannau i'n datganiad polisi yn barhaus, ac anfonir adolygiad blynyddol, a fydd ar gael i'r cyhoedd, i Grŵp Gweithredol a Chyngor y Brifysgol.

Bydd y datganiad polisi ar gael i'r cyhoedd a'r holl bartïon a chanddynt fuddiant ac yn cael ei gyfathrebu i holl fyfyrwyr a staff y Brifysgol. Dylid ei ddarllen ochr yn ochr â Chynllun Gweithredu'r polisi.

*Llofnodwyd:* *Dyddiad 17.06.2026*

*Yr Athro Jon Timmis*

*Is-Ganghellor, Prifysgol Aberystwyth*